Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau partner sy'n cefnogi cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog, Awdurdodau Lleol; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; darparwyr gwasanaethau tai eraill; Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl; Byrddau Iechyd Lleol ac asiantaethau darparu eraill. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn nodi'r llwybr i ddiwallu anghenion tai cyn-aelodau o'r lluoedd arfog a fydd yn ailsefydlu yng Nghymru. |
| **Camau i'w cymryd** | Bod ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Gyfamod y Lluoedd Arfog a Deddf Tai (Cymru) 2014, yn enwedig Rhan 2 sy'n mynd i'r afael â'r dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau digartrefedd ataliol, a hefyd fframweithiau perthnasol eraill ac arfer da. |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru ac mae ar gael yn ddwyieithog. |
| **Dogfennau cysylltiedig** | • Deddf Tai (Cymru) 2014 (Rhan 2)<br>• Deddf Tai 1996 (Rhan 6)<br>• Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Ebrill 2016)<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<br>• Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru<br>• Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel (Rhagfyr 2015) |



© Hawlfraint y Goron 2016
WG30173
ISBN digidol 978 1 4734 7872 5 ISBN argraffu 978 1 4734 7871 8

# RHAGAIR



Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'r cyfraniad yn y presennol a'r gorffennol gan ddynion a menywod o Gymru i Luoedd Arfog y DU. Yn yr un modd rydym yn gwerthfawrogi'r hyn y mae cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn ei ychwanegu at ein cymunedau wedi iddynt adael y Lluoedd Arfog ac ymgartrefu yng Nghymru.

Mae'r Llwybr Tai hwn yn ymateb i un o bryderon allweddol aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog pan fyddant yn gadael y Lluoedd Arfog: dod o hyd i lety addas a gwybod ble i ddod o hyd i gymorth. Mae hyn yn rhywbeth sy'n gallu bod yn anos byth wrth geisio cael gafael ar wasanaethau a chymorth mewn ardal nad ydych yn gyfarwydd â hi.

Gan weithio gyda'n rhanddeiliaid yn y Lluoedd Arfog, rydym wedi cynhyrchu'r Llwybr Tai hwn i roi eglurder a chymorth i chi a'ch teuluoedd er mwyn eich helpu chi i helpu eich hunain. Gallai hyn fod naill ai trwy berchentyaeth, neu rentu yn y sector preifat neu gymdeithasol.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio pwerau deddfu newydd y Cynulliad i basio Deddf Tai (Cymru) 2014, a nodwedd graidd ohoni yw dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio gyda phobl i ddod o hyd i ddatrysiadau i'w problemau tai. Mae'n golygu mwy o gymorth i fwy o bobl ar y cyfan, ond i gydnabod eich gwasanaeth chi i'ch gwlad, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r categori angen blaenoriaethol i chi os byddwch yn eich cael eich hun yn ddigartref pan fyddwch yn gadael y Lluoedd Arfog.

Mae'r Llwybr Tai ynghyd â Phecyn Cymorth Llywodraeth Cymru yn nodi'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael, ac mae wedi'i fwriadu i'ch helpu chi i ddewis yr opsiwn mwyaf addas o ran llety i chi a'ch teulu pan fyddwch yn dychwelyd at fywyd allan o'r Lluoedd Arfog.

Mae datblygu'r Llwybr hwn yn gyfle i wneud gwahaniaeth ac edrychaf ymlaen at weld y manteision y bydd yn eu dwyn. Hoffwn ddiolch i bawb a chwaraeodd ran yn y broses o'i ddatblygu.



# LLWYBR TAI CENEDLAETHOL AR GYFER CYN-AELODAU'R LLUOEDD ARFOG

Gan gydnabod eu gwasanaeth dros eu gwlad, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai pob cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog gael help, os oes angen, i ddod o hyd i lety addas, boed yn syth ar ôl ei ryddhau neu'n ddiweddarach yn ei oes. Ni ddylid gadael i unrhyw un ddod yn ddigartref.

Mae amcangyfrifon o nifer yr aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru'n amrywio a gallai fod mor uchel â 385,000[1]. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru i sicrhau bod pawb ac arnynt angen llety, neu wasanaeth a fydd yn eu helpu i gadw neu ddod o hyd i lety, yn gallu cael gafael arno.

I gefnogi Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Pecyn Cymorth ar gyfer y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r pecyn yn cynnwys cymorth i bobl mewn meysydd megis gofal iechyd; addysg; a thai, gan gynnwys statws blaenoriaeth yn y cynllun Cymorth Prynu, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a statws angen blaenoriaethol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Cadarnhawyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyn yn "The Nation's Commitment: Cross-Government Support to our Armed Forces, their Families and Veterans" a ddiweddarwyd gan Gyfamod y Lluoedd Arfog ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r Cyfamod fel y nodir yn ein "Pecyn Cymorth ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru".

https://www.gov.uk/government/publications/the-nations-commitment-cross-government-support-for-our-armed-forces-their-families-and-veterans


https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/238719/7424.pdf

https://www.gov.uk/government/collections/armed-forces-covenant-supporting-information

http://gov.wales/docs/dsjlg/policy/130625afpackagesec1cy.pdf
http://gov.wales/docs/dsjlg/policy/130625afpackagesec2cy.pdf

[1] Arolwg Aelwydydd y Lleng Brydeinig Frenhinol - 2014

# Cymorth sydd ar gael o ran Llety cyn gorffen gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog



# CYMORTH CYN RHYDDHAU

Mae Llywodraeth Cymru yn deall y gall fod yn amser cynhyrfus wrth i'r dyddiad y byddwch yn cael eich rhyddhau nesáu, yn enwedig os ydych wedi bod yn aelod o'r Lluoedd Arfog am beth amser ac wedi arfer â'r strwythur y mae'n ei roi ichi.

Ceir gwasanaethau cynghori a all eich helpu i ddod o hyd i lety .

**RWY'N GADAEL Y LLUOEDD ARFOG.**
**RWY'N MEDDWL Y BYDD CAEL TŶ YN BROBLEM, BETH YW FY OPSIYNAU?**

Fel un o ddinasyddion y DU, mae ystod o ddewisiadau o ran tai yn agored ichi, gan gynnwys rhentu'n breifat, rhentu tŷ cyngor neu dŷ cymdeithas dai, neu brynu eich tŷ eich hun.

**BETH DDYLWN I EI WNEUD?**

Fel rhan o gwblhau'r broses bontio yn ôl i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog, dylech ymgysylltu â Swyddog Ailsefydlu eich Uned a fydd yn eich tywys trwy'r broses cynllunio personol HARDFACTS. Bydd y cwestiynau ynglŷn â Llety o gymorth i chi a'ch swyddog ailsefydlu ddeall a fydd gennych dŷ pan fyddwch yn cael eich rhyddhau a beth ddylai eich camau nesaf fod.

Bydd hyn yn rhan o'r broses ailsefydlu a fydd yn dechrau hyd at ddwy flynedd cyn ichi gael eich rhyddhau ac yn parhau am hyd at 2 flynedd ar ôl ichi gael eich rhyddhau.

Hefyd, ac os byddant ar gael, efallai y byddwch yn dymuno mynd i un o Ffeiriau Pontio'r Lluoedd Arfog a gynhelir yng Nghymru i gefnogi proses ailsefydlu'r rhai sy'n mynd i fod yn cael eu rhyddhau. Byddai'r Ffair yn cynnwys gwybodaeth am ddewisiadau posibl o ran gyrfa yn ychwanegol at gymorth posibl i ddod o hyd i lety.

**PA GYNGOR ARALL ALLAF EI GAEL?**

Pan fydd dyddiad y dyddiad y byddwch yn cael eich rhyddhau'n nesáu, bydd arnoch angen cyngor amserol a chynhwysfawr ynghylch dewisiadau o ran tai sy'n agored ichi. Dylech ymgysylltu â Swyddog Ailsefydlu eich uned, ond hefyd bydd Cyd-swyddfa Cynghori ar Dai'r Lluoedd Arfog yn gallu eich cefnogi trwy roi gwybodaeth a chyngor ynghylch dewisiadau o ran tai ymhell cyn eich rhyddhau a dyna ddylai eich man cychwyn fod:

Joint Services Housing Advice Office
Floor 2 Zone 2 Montgomery House Queens Avenue Aldershot GU11 2JN
E-bost - RC-AWS-JSHAO-0mailbox@mod.uk
Llinell gynghori 01252 787574

Os ydych yn sengl, yna bydd y Ganolfan Llety i Bobl Sengl ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ("SPACES") yn gallu eich cynorthwyo i ddod o hyd i lety addas pan fyddwch yn cael eich rhyddhau:

SPACES
The Beacon, SPACES Office, Marne Road, Catterick Garrison, Catterick, North Yorkshire. DL9 3AU
E-bost - spaces@riverside.org.uk
Ffôn: 01748 833797/872940/830191

Hefyd, mae llinell gymorth Veterans UK y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi cymorth mewn perthynas â llawer o faterion, gan gynnwys mynediad at fudd-daliadau, tai a gwasanaethau lles.

Veterans UK
Ministry of Defence
Norcross
Thornton Cleveleys
FY5 3WP
E-bost: veterans-uk@mod.uk
Rhadffôn (y Du yn unig): 0808 1914 2 18
Ffôn (o dramor): +44 1253 866 043

Os byddwch yn ceisio cyngor arall neu ychwanegol, mae gwasanaethau eraill ar gael ichi hefyd a, lle y bo'n briodol, i'ch partner/gwraig/gŵr. Caiff gwasanaethau cynghori ychwanegol eu rhestru ar dudalen 21.

Os ydych wedi'ch lleoli y tu allan i Gymru ac yn dymuno symud neu ddychwelyd i Gymru, bydd dyletswydd (a.60 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) ar awdurdod lleol yr ardal yr ydych yn bwriadu byw ynddi i roi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ichi ymhell cyn ichi gael eich rhyddhau. Ceir rhestr o bob tîm dewisiadau tai ar dudalen 22.

**PWY SY'N GYMWYS I GAEL CYMORTH?**

Mae'r Llwybr hwn yn rhoi cyngor i unrhyw un sydd ar fin gadael y Lluoedd Arfog a'u dibynyddion, ni waeth pa un a ydynt yn filwr wrth gefn ynteu'n aelod rheolaidd o'r Lluoedd Arfog, yn cael eu rhyddhau'n gynnar neu am resymau meddygol.

Dan delerau Deddf Tai (Cymru) 2014, bydd dyletswydd ar awdurdod lleol i helpu unrhyw un sydd mewn perygl o golli ei lety neu sy'n ddigartref. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyn-wŷr a chyn-wragedd/cyn-bartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog a gwŷr a gwragedd/partneriaid a gafodd brofedigaeth yn ddiweddar.

Fodd bynnag, efallai y bydd y cymorth sydd ar gael yn amrywio gan ddibynnu ar eich amgylchiadau a'ch statws a byddem yn erfyn arnoch i gysylltu â'ch awdurdod lleol i'ch helpu i ddeall beth allai fod ar gael i chi.

**BYDD ANGEN CYMORTH ARNAF I GYNNAL TENANTIAETH**

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i bwriadu i helpu pobl ag anghenion o ran cymorth sy'n gysylltiedig â thai i sicrhau neu gadw cartref trwy gynnig amrywiaeth o gymorth addas i'r person hwnnw.

Os ydych chi'n meddwl y gall fod angen cymorth arnoch i gynnal tenantiaeth gallwch hefyd siarad gyda'r tîm Cefnogi Pobl yn eich awdurdod lleol i weld a oes cymorth ar gael ganddynt hwy. Ceir rhestr o bob tîm Cefnogi Pobl ar dudalen 22.

## HOFFWN RENTU YN Y SECTOR PREIFAT

Mae rhentu'n breifat yn cynnig hyblygrwydd ac, o bosibl, mwy o ddewis o ran ble yr ydych yn byw yn ogystal â hyd y denantiaeth, ond mae'n cynnig llai o ddiogelwch deiliadaeth. Yng Nghymru, bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2014 a yn rhoi diogelwch a mesurau amddiffyn ychwanegol i rai tenantiaid, tra bo Deddf Tai (Cymru) 2014 hefyd yn rheoleiddio landlordiaid i sicrhau eu bod nid dim ond yn addas ac yn briodol, ond hefyd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Gallwch gael mynediad at y farchnad rentu breifat mewn nifer o ffyrdd. Bydd llawer o landlordiaid yn hysbysebu eu heiddo ar wefannau eiddo, trwy bapurau newydd lleol neu drwy asiantaethau gosod a allai weithredu ar ran y landlordiaid hefyd. Gallech hefyd gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol a fydd yn gallu rhoi cyngor ynghylch gosodiadau lleol yn ogystal â gweithredu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer mynediad at dai rhent preifat.

## HOFFWN RENTU YN Y SECTOR TAI CYMDEITHASOL

Er mwyn cael mynediad at dai cymdeithasol bydd angen ichi wneud cais am dŷ. Bydd y ffurflen yn amrywio o un ardal neu gymdeithas dai i'r llall, ond mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu cynlluniau cofrestr dai gyffredin sy'n golygu mai dim ond un ffurflen y bydd gofyn ichi ei chwblhau.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen, bydd y gymdeithas dai neu'r cyngor yn defnyddio eich cais i benderfynu ar eich lefel flaenoriaeth cyn eich bod yn cael eich ychwanegu at y rhestr dai.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr y pŵer i roi ffafriaeth ychwanegol i ddisgrifiadau penodol o bobl sy'n perthyn i'r categorïau ffafriaeth resymol ac sydd ag anghenion tai brys. Mae pobl ac arnynt angen llety o ganlyniad i adael y Lluoedd Arfog yn gategori o bobl y dylai Awdurdod Lleol ystyried rhoi blaenoriaeth ychwanegol iddynt o fewn eu cynllun dyrannu.

Gyda'ch cais am dŷ, dylech hefyd ddarparu copi o'ch Tystysgrif Diwedd Hawl i Feddiannu Llety'r Lluoedd Arfog. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dyroddi hon hyd at chwe mis cyn ichi adael y Lluoedd Arfog.

## BETH OS YDW I WEDI CAEL FY ANAFU NEU FY ANABLU TRA'R OEDDWN YN Y LLUOEDD ARFOG?

Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn bwysig bod Aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu hanablu tra'r oeddent yn y Lluoedd Arfog ac sydd ag angen brys am dai cymdeithasol yn cael blaenoriaeth uchel yng nghynlluniau dyrannu awdurdodau lleol i gydnabod eu gwasanaeth.

Hefyd, byddwch yn gallu cael mynediad at ffynonellau cymorth ychwanegol i'ch helpu i addasu darpar eiddo i ddiwallu eich anghenion. Gallai hyn olygu bod gennych hawl i Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan eich awdurdod lleol.

Gallech hefyd geisio cymorth gan y cynllun Galluogi – Cymorth i Fyw'n Annibynnol, sy'n adnabod y ffordd fwyaf addas i bobl gael addasiadau i barhau i fyw yn eu cartref yn

annibynnol. Bydd hyn yn gwella annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl, yn helpu i atal argyfwng neu dderbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty neu ofal preswyl a gall hefyd hwyluso trefniadau i ryddhau'n gynharach o'r ysbyty.

Os ydych yn teimlo bod arnoch angen cymorth i reoli eich anghenion o ran gofal a chymorth er mwyn eich helpu i fyw'n fwy annibynnol, mae gennych hawl i ofyn am asesiad gan eich awdurdod lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd yr awdurdod lleol yn eich cynorthwyo i ddiwallu unrhyw anghenion o ran gofal a chymorth a adnabuwyd trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, gwasanaethau cymunedol neu ataliol, cynllun gofal a chymorth neu drwy ddull arall.

Er na fyddwch o bosibl wedi cael eich anafu na'ch anablu'n gorfforol wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog, efallai y bydd eich amser yn y Lluoedd Arfog wedi effeithio ar eich iechyd meddwl. Os ydych yn teimlo y gallai hyn fod yn wir, dylech gymryd camau i gadarnhau diagnosis cyn gynted â phosibl. Mae asesiad a threfniadau rheoli gofal o fewn y Lluoedd Arfog i aelodau presennol sy'n profi problemau iechyd meddwl ar gael ar dair lefel:

- Trwy eich Swyddog Meddygol;
- Atgyfeiriad at wasanaeth iechyd meddwl cymunedol y Weinyddiaeth Amddiffyn trwy eich Swyddog Meddygol;
- Gwasanaethau i gleifion mewnol trwy un o ysbytai lleol y GIG dan gontract y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Fe'ch anogir i ofyn am asesiad iechyd meddwl cyn cael eich rhyddhau, os ydych yn credu bod gennych broblem iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'ch gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog.

**DYDW I DDIM YN SIŴR A FYDDAF YN GALLU YMDOPI Â BYWYD Y TU ALLAN I'R LLUOEDD ARFOG?**

Gan ddibynnu ar hyd eich gwasanaeth, gall y newid yn ôl i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog fod yn anodd a gallai roi straen ar eich iechyd meddwl, a allai yn ei dro effeithio ar eich perthnasoedd â theulu a ffrindiau. Fel arall, efallai y byddwch yn teimlo bod gennych broblem gyda chyffuriau a/neu alcohol na fyddwch yn gallu ei rheoli o bosibl y tu allan i'ch amgylchedd presennol.

Gall GIG Cymru i Gyn-filwyr helpu i'ch cefnogi os ydych yn profi anawsterau iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth hwn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu therapyddion cyn-filwyr ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol (mae'r manylion cyswllt wedi'u hatodi) ac yn cynnig triniaeth seiliedig-ar-dystiolaeth i gleientiaid, sy'n gallu hunanatgyfeirio neu gael mynediad at y gwasanaeth trwy atgyfeiriad gan feddyg teulu, elusen neu aelod o'r teulu.

Yng Nghymru DAN 24/7 yw'r llinell cyffuriau ac alcohol Cymru gyfan ddwyieithog – 0800 633 2234.

Mae ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ac mae galwadau o linellau tir yn y DU yn rhad ac am ddim (efallai y bydd rhai rhwydweithiau ffonau symudol yn codi am alwadau). Mae gwybodaeth ar gael trwy'r wefan hefyd - dan247.org.uk

**BETH OS YDW I'N CAEL TRINIAETH AR GYFER CYFLWR IECHYD MEDDWL?**

Os ydych eisoes yn cael triniaeth ar gyfer cyflwr iechyd meddwl, bydd eich gofal a'ch triniaeth yn parhau wedi ichi gael eich rhyddhau trwy lwybr gofal rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r GIG.

Bydd triniaeth barhaus yn cael ei rheoli gan GIG Cymru i Gyn-filwyr trwy Therapydd Cyn-filwyr profiadol sydd wedi'i leoli ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Bydd apwyntiad yn cael ei drefnu mor agos â phosibl at gartref y cyn-filwr mewn lleoliad addas.

http://www.veteranswales.co.uk/

Fel arall gallwch gael cyngor trwy ffonio'r llinellau cymorth 24/7 canlynol:

- CALL - 0800 132 737
- Rethink - 0800 138 1619

**PA MOR HIR FYDD ANGEN IMI AROS AM LETY?**

Bydd eich amser ar y rhestr aros yn dibynnu ar yr ardal yr ydych yn dymuno byw ynddi a'r math o dŷ a maint y tŷ y mae arnoch ei angen yn ogystal ag unrhyw ddewisiadau ychwanegol sydd gennych. Mewn rhai ardaloedd nid oes digon o dai i ateb y galw, ac mewn ardaloedd eraill fe all fod tai dros ben. Bydd y darparwr tai yn gallu rhoi cyngor ichi ynghylch yr amser aros posibl yn ogystal â chadarnhau pa un a ydych wedi cael ffafriaeth ychwanegol ai peidio.

Ceir gwybodaeth am opsiynau tai Awdurdodau Lleol trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://www.waleshousing.org/

**A FYDD GOFYN IMI ROI BLAENDAL NEU RENT YMLAEN LLAW?**

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd landlord yn ei gwneud yn ofynnol ichi dalu bond neu flaendal rhent cyn y byddant yn eich derbyn fel tenant. Hefyd, efallai y bydd angen ichi dalu am ddodrefn a nwyddau gwyn newydd. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu rhoi gwybod a oes unrhyw gynlluniau bond yn ei ardal, ac efallai y bydd hefyd yn gallu gwneud cais ar eich rhan am arian o'r Gronfa Cymorth Dewisol i'ch helpu i ddodrefnu eich eiddo.

Os yw eich Awdurdod Lleol wedi methu â chael unrhyw gymorth ariannol, gan ddibynnu ar eich cymhwystra, efallai y bydd y Lleng Brydeinig Frenhinol neu sefydliadau elusennol eraill yn gallu helpu i dalu'r costau.

Argymhellir eich bod yn dechrau cynilo ar gyfer y mathau hyn o dreuliau cyn cael eich rhyddhau, er enghraifft gan ddefnyddio darparwr cynilion megis cyfrif Undeb Credyd. Po gyntaf y byddwch yn dechrau hyn, po fwyaf y byddwch wedi'i gynilo pan fyddwch yn cael eich rhyddhau.

Mae Cynllun Benthyciadau Blaendal Tenantiaeth ar gael i aelodau o'r Lluoedd Arfog hefyd. Mae amodau ynghlwm wrth y cynllun hwn, a fydd yn cynnwys ad-dalu o fewn deuddeg mis. Dylech siarad gyda'ch swyddog pontio ynghylch cael mynediad ato.

**RWY'N DYMUNO PRYNU FY EIDDO FY HUN. A OES UNRHYW HELP IMI WNEUD HYNNY?**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru sydd wedi'i fwriadu i roi cymorth ariannol i'r rhai na fyddent yn gallu fforddio prynu eiddo fel arall o bosibl.

http://helptobuywales.co.uk/?lang=cy

Hefyd, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithredu cynllun Cymorth i Brynu ar gyfer y Lluoedd Arfog sy'n galluogi aelodau o'r Lluoedd Arfog i gael benthyg hyd at 50% o'u cyflog, yn ddi-log, i brynu eu cartref cyntaf neu symud i eiddo arall wrth gael eu haseinio neu wrth i anghenion eu teuluoedd newid. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod gennych o leiaf chwe mis o wasanaeth ar ôl i fod yn gymwys i gael y cymorth.

https://www.gov.uk/forces-help-to-buy

Dylai Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai hefyd flaenoriaethu (ar gyfer Perchentyaeth Gost Isel) partneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog y mae eu problemau tai wedi deillio o wasanaeth; mae hyn yn cynnwys gwŷr a gwragedd gweddw aelodau o'r Lluoedd Arfog a laddwyd wrth wasanaethu.

**RWY'N POENI NA FYDDAF YN GALLU FFORDDIO FY RHENT NEU FORGAIS.**

Gall fforddiadwyedd fod yn broblem go iawn i rai Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, yn enwedig rheoli materion ariannol yr aelwyd.

Os ydych yn cael cymorth gan awdurdod lleol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gall ofyn ichi gael hyfforddiant mewn rheolaeth ariannol ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hwn yn gais addas a rhesymol.

Fodd bynnag, os byddwch yn teimlo nad ydych yn gallu fforddio'r cartref y mae awdurdod wedi eich helpu i ddod o hyd iddo, mae'n rhaid ichi godi hyn gyda'ch gweithiwr dewisiadau tai yn yr awdurdod. Mae'r diffiniad cyfreithiol o 'lety addas' yn mynnu ei fod yn fforddiadwy.

Mae hefyd yn bwysig eich bod yn cynyddu eich incwm i'r eithaf trwy sicrhau bod gennych fynediad at fudd-daliadau'r wladwriaeth y mae gennych hawl iddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau, gan gynnwys sut i wneud cais, gan eich awdurdod lleol, ond gellir ei chael hefyd ar y wefan ganlynol:

https://www.gov.uk/

**A ALLAF RANNU?**

Mae llety a rennir yn faes y gall fod angen ichi ei ystyried yn seiliedig ar yr hyn y gallwch ac na allwch ei fforddio. Gall hyn fod yn fwy cyffredin os oes arnoch angen cymorth gyda Budd-dal Tai ar ôl cael eich rhyddhau, o ystyried na fydd Budd-dal Tai o bosibl yn cwrdd â chost lawn eich rhent os ydych dan 35.

Dylech siarad gyda'ch awdurdod lleol i ddeall pa opsiynau o ran llety a rennir allai fod ar gael i chi.

## BETH MAE CYSYLLTIAD LLEOL YN EI OLYGU I MI?

Mae rhai awdurdodau lleol wedi penderfynu rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl sydd â 'chysylltiad lleol' fel bod gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu sydd â chysylltiadau teuluol agos fwy o siawns o gael eu hailgartrefu nag ymgeiswyr eraill sydd mewn angen.

Gellir sefydlu 'cysylltiad lleol' at ddibenion tai cymdeithasol trwy fyw mewn ardal (gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardal o ganlyniad i ddedfryd o garchar), cyflogaeth neu gysylltiad teuluol. Mae hyn yn golygu bod aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog, a phobl eraill sy'n byw gyda hwy fel arfer fel rhan o'u haelwyd, yn sefydlu 'cysylltiad lleol' ag ardal trwy fod yn gwasanaethu, neu wedi gwasanaethu, yno tra'r oeddent yn y Lluoedd Arfog.

Gall rhywun fod â 'chysylltiad lleol' â mwy nag un ardal, ond dylech fod yn ymwybodol y gall effeithio ar eich dewisiadau tai os byddwch yn ceisio byw mewn ardal lle nad oes cysylltiad o gwbl gennych.

## PRYD DDYLWN I GYSYLLTU Â'M HAWDURDOD LLEOL?

Er bod y broses bontio'n cychwyn i bob pwrpas o'r eiliad y byddwch yn dechrau yn y Lluoedd Arfog, tua chwe mis cyn cael eich rhyddhau dylech wneud y canlynol:

Dylech eich gwneud eich hun yn hysbys i'r awdurdod lleol perthnasol. Mae dwy ran i hyn; gallwch drafod eich dewisiadau o ran tai cymdeithasol a phreifat yn ogystal â'ch gwneud eich hun (a'ch dyddiad rhyddhau) yn hysbys i'r tîm dewisiadau tai.

Dylech ystyried sut y byddwch yn fforddio eich bond neu'ch blaendal rhent ac os yw'n angenrheidiol dechreuwch gynilo neu defnyddiwch gynllun blaendal tenantiaeth.

## MAE'R DYDDIAD Y BYDDAF YN CAEL FY RHYDDHAU'N PRYSUR NESÁU AC RWY'N DAL HEB RYWLE I AROS.

Os nad ydych wedi gallu sicrhau tŷ erbyn y byddwch yn cael eich rhyddhau mae'n debygol y byddwch yn gymwys i gael cymorth gan awdurdod lleol yng Nghymru i'ch helpu i ddod o hyd i lety addas dan ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Os ydych o fewn 56 diwrnod i gael eich rhyddhau a'ch bod yn dal heb gael llety, bydd dyletswydd ar awdurdod lleol i'ch helpu i ddod o hyd i lety addas dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Dylech ystyried cysylltu â thîm dewisiadau tai yr awdurdod lleol perthnasol i drafod y dewisiadau sydd ar gael ichi. Os ydych wedi bod yn siarad gyda Veterans UK neu Gyd-swyddfa Cynghori ar Dai'r Lluoedd Arfog, byddant hwy'n gallu rhoi cyngor ichi ynghylch pryd i gychwyn cais.

Lle bydd gan awdurdod lleol ddyletswydd i roi cymorth, bydd angen i hon gael ei chyflawni mewn partneriaeth, gyda chithau'n cymryd cyfrifoldeb am gymryd rhai camau. Mae tudalen 20 yn cynnwys mwy o fanylion am y mathau o weithgareddau y gellid gofyn ichi eu cwblhau.


Mae’n hollbwysig eich bod yn ymgysylltu â’r awdurdod lleol ac yn cyfranogi’n llawn yn y ‘camau rhesymol’. Os byddwch yn methu â gwneud hynny gallai olygu bod yr awdurdod lleol yn rhoi’r gorau i roi cymorth ichi.

**BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDDAF YN DAL HEB UNRHYW LE I AROS PAN FYDDAF YN CAEL FY RHYDDHAU?**

Mae’n bwysig eich bod yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau tai cyn eich bod yn cael eich rhyddhau. Yn ddelfrydol byddwch yn cysylltu â’ch awdurdod lleol tua chwe mis cyn gadael; fodd bynnag efallai na fydd hyn wastad yn bosibl os ydych yn ymadawr cynnar. Fodd bynnag, os cewch eich rhyddhau heb lety, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau llety addas ichi ar unwaith. Efallai na fydd hwn yn yr ardal lle’r ydych yn dymuno byw a llety dros dro fydd hwn, mwy na thebyg. Mae angen ichi fod yn ymwybodol mai dim ond os ydych wedi ymgysylltu’n llawn â’r broses ‘camau rhesymol’ a nodir uchod y bydd y ddyletswydd hon yn bodoli. Ni allwch beidio â chymryd rhan yn y broses ‘camau rhesymol’ a disgwyl nes bod dyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu llety. Gallai’r llwybr hwn hefyd gynnwys arhosiad byr mewn llety dros dro tra bo llety mwy addas yn cael ei ganfod.

Gallai’r llety y mae’n rhaid i’r Awdurdod Lleol ei ddarparu fod naill ai yn y sector preifat neu’r sector cymdeithasol ac mae’n rhaid disgwyl y bydd yn para am o leiaf chwe mis. Os bydd yn dod i ben cyn diwedd y cyfnod o chwe mis a bod dim bai arnoch chi, yna mae’n debygol y bydd gennych hawl i gymorth pellach gan yr Awdurdod Lleol.

# Cymorth sydd ar gael yn y Gymuned o ran Llety



# CYMORTH AR ÔL RHYDDHAU

Mae canran fach o gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn ei chael yn anodd addasu'n ôl i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog. Gallai hyn fod o ganlyniad i newidiadau mewn gorchwylion rheolaidd neu fe allai hyd yn oed fod o ganlyniad i faterion iechyd corfforol neu iechyd meddwl nad ydynt yn dod i'r amlwg am wythnosau, misoedd neu flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

**RWYF O DAN FYGYTHIAD O GOLLI FY NGHARTREF. PA HELP ALLAF EI GAEL?**

Yn ogystal â'r gwasanaethau cynghori a restrir uchod, os ydych chi a/neu eich dibynyddion o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod bydd dyletswydd ar eich awdurdod lleol i'ch helpu i atal eich digartrefedd. Bydd hyn trwy'r broses 'camau rhesymol' felly bydd disgwyl ichi gymryd rhai camau tra bydd yr awdurdod yn cymryd rhai eraill. Mae manylion y 'camau rhesymol' posibl wedi'u cynnwys ar dudalen 20.

Mae'n hanfodol eich bod yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol ac yn cyfranogi'n llawn yn y 'camau rhesymol'. Os byddwch yn methu â gwneud hynny fe allai'r awdurdod lleol roi'r gorau i roi cymorth ichi.

**RWY'N DDIGARTREF. PA HELP ALLAF EI GAEL?**

**Yn gyntaf, peidiwch â disgwyl nes eich bod yn dod yn ddigartref cyn gofyn am help. Po fwyaf o amser fydd gennych chi a'ch awdurdod lleol i ddatrys y mater, po fwyaf tebygol yw y gellir cael canlyniad cadarnhaol, gan gynnwys aros yn eich cartref presennol.**

Os ydych eisoes yn ddigartref yna dylech eich cyflwyno'ch hun i'ch awdurdod lleol ar unwaith (mae rhestr o rifau cyswllt wedi'i chynnwys ar dudalen 22). Mae'n debygol y byddwch yn gymwys i gael cymorth dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gan gynnwys y posibilrwydd o fod yn gymwys i gael llety dros dro ar unwaith gan yr awdurdod lleol.

Wrth gyflwyno cais i awdurdod lleol, byddwch yn ei chael yn ddefnyddiol mynd â'r wybodaeth ganlynol gyda chi:

- Manylion personol – gan gynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol a rhifau ffôn a'ch rhif yn y Lluoedd Arfog os yw'n hysbys;
- Hanes byr o ran tai – gan gynnwys y math o lety (h.y. fflat neu dŷ), enw'r landlord (a'i berthynas â'r ymgeisydd), rheswm dros adael a hyd yr arhosiad yn yr eiddo;
- Manylion meddygol – gan gynnwys unrhyw faterion iechyd presennol, manylion meddyginiaeth bresennol, os o gwbl, ac enw'r meddyg teulu os yw'n hysbys neu pa un a yw'r driniaeth yn cael ei rhoi trwy GIG Cymru i Gyn-filwyr;
- Anghenion o ran cymorth – manylion y cymorth y mae'r unigolyn yn ei gael ar hyn o bryd gan gynnwys manylion cyswllt darparwyr a rheswm dros y cymorth a roddir.

Fodd bynnag, efallai na fydd dyletswydd ar awdurdod i ddarparu llety dros dro ar eich cyfer felly mae angen ichi ystyried pa ffrindiau a theulu allech fyw gyda hwy o bosibl tra bo'r Awdurdod yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i lety arall.

Lle bydd gan awdurdod lleol ddyletswydd i roi cymorth, bydd angen i hon gael ei chyflawni mewn partneriaeth, gyda chithau'n cymryd cyfrifoldeb am gymryd rhai camau. Mae tudalen 20 yn cynnwys mwy o fanylion am y mathau o weithgareddau y gellid gofyn ichi eu cwblhau.

Mae'n hollbwysig eich bod yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol ac yn cyfranogi'n llawn yn y 'camau rhesymol'. Os byddwch yn methu â gwneud hynny gallai olygu bod yr awdurdod lleol yn rhoi'r gorau i roi cymorth ichi.

Efallai y bydd llety a neilltuwyd i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog ar gael. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar argaeledd llety ar y pryd yn ogystal â'ch anghenion penodol chi.

Efallai y bydd ystod o hostelau y gallech gael mynediad atynt dros dro hefyd. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu darparu dewisiadau ar eich cyfer.

Hefyd, mae ystod o sefydliadau yn y trydydd sector a fyddai o bosibl yn gallu eich helpu megis y Lleng Brydeinig Frenhinol, Haig Housing, Cymdeithas Dai First Choice, Alabaré, CAIS a Blind Veterans. Mae eu manylion cyswllt ar dudalen 21.

**FE ADEWAIS Y LLUOEDD ARFOG BETH AMSER YN ÔL. BETH YW FY NEWISIADAU O RAN TAI YN AWR?**

Os gadawoch chi o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, byddwch yn dal i allu ymgysylltu â'r broses bontio felly fe ddylech, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Ailsefydlu eich uned i helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael.

Hyd yn oed os cawsoch eich rhyddhau fwy na 2 flynedd yn ôl, efallai y bydd Swyddog Ailsefydlu'r uned yn dal i allu eich helpu, felly dylech gysylltu â'r Swyddog Ailsefydlu yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, dylech hefyd gysylltu â'ch awdurdod lleol a fydd yn gallu eich cefnogi naill ai â chyngor a chynhorthwy neu â dyletswydd i'ch helpu i atal neu leddfu eich digartrefedd. Ceir rhestrau o fanylion cyswllt ar dudalen 22.

Ni waeth beth oedd eich dyddiad rhyddhau, byddai Veterans UK yn gallu rhoi cymorth hefyd (manylion cyswllt ar dudalen 7) ar eu llinell Radffôn ar ôl i chi egluro eich amgylchiadau. Hefyd, gallwch gael gafael ar gymorth gan sefydliadau sy'n rhoi cyngor a gwasanaethau i helpu Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Bydd gan bob awdurdod lleol fanylion o ran pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol.

**RWYF YN Y CARCHAR AC NID OES UNMAN GENNYF I AROS PAN FYDDAF YN CAEL FY RHYDDHAU**

Os ydych mewn dalfa ac ar fin cael eich rhyddhau, mae Llwybr presennol sydd wedi'i fwriadu i gefnogi'r broses ailsefydlu ar gyfer pawb sy'n gadael dalfa – *Y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel*.

Yr allwedd i gael y cymorth llawn sydd wedi'i gynnwys yn y Llwybr hwn fydd eich bod yn cytuno i gymryd rhan yn y cymorth ailsefydlu sydd ar gael gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n dechrau tua 12 wythnos cyn eich rhyddhau. Os byddwch yn methu â gwneud hynny, fe allai olygu nad yw awdurdod lleol yn ymwybodol eich bod yn cael eich rhyddhau ac fe allai fod yn rhwystr i'ch siawns o ddod o hyd i rywle i aros.

Dylech sicrhau bod eich Swyddog Ailsefydlu o’r Cwmni Adsefydlu Cymunedol o fewn y carchar yn ymwybodol o’ch achos ac yn gallu cyflwyno cais i’r Awdurdod Lleol perthnasol gyda chymorth eich Rheolwr Troseddwyr yn y Gymuned. Fel arall, gallwch ofyn i ffrind neu aelod o’ch teulu gysylltu â’r Awdurdod Lleol ar eich rhan.

Hefyd, fel cyn-aelod o’r Lluoedd Arfog byddwch yn gymwys i gael cymorth gan Swyddogion Cyswllt Carchar SToMP (Cefnogi Pontio ar gyfer Aelodau o’r Lluoedd Arfog) a swyddogion carchar sy’n Hyrwyddwyr ar gyfer Cyn-aelodau o’r Lluoedd Arfog. Gallant eich cyfeirio at wasanaethau arbenigol i’ch helpu yn y ddalfa a’ch paratoi ar gyfer ailsefydlu ar ôl eich rhyddhau. Dylech roi gwybod i aelod o staff y carchar eich bod yn gyn-aelod o’r Lluoedd Arfog a bydd yr aelod hwnnw’n gallu rhoi rhagor o wybodaeth ichi.

## RWY’N OFNI BOD FY MHROFIADAU WEDI EFFEITHIO AR FY IECHYD.

Er bod hynny’n brin, mae straen gweithio yn y Lluoedd Arfog yn gallu effeithio ar yr aelodau o’r Lluoedd Arfog a’u teuluoedd, ond gall ddod i’r amlwg rywbryd yn ddiweddarach gyda theuluoedd yn chwalu.

Gall GIG Cymru i Gyn-filwyr gan Lywodraeth Cymru helpu yn yr achosion hyn. Gallwch gael mynediad at y gwasanaeth hwn trwy ddilyn y ddolen isod: www.veteranswales.co.uk.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol hefyd i wella mynediad at therapïau seicolegol. Bydd y cyllid yn rhoi cymorth i ddarparu therapïau o’r fath – megis Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ac ymwybyddiaeth ofalgar – ar gyfer pobl o bob oed, a byddant yn cynnwys therapïau seicolegol ar gyfer cyn-filwyr sy’n dioddef anhwylder straen wedi trawma.

## A ALLAF GAEL ASESIAD GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL?

Os ydych yn meddwl bod arnoch angen gofal a chymorth yna dylech ystyried gofyn am asesiad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal â sicrhau bod y rhai ac arnynt angen gofal a chymorth yn cael y cymorth hwnnw, mae’r Ddeddf hefyd yn gwneud yr unigolyn yn ganolog i’w ofal i sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau.

Hefyd, mae’r ddeddfwriaeth yn sicrhau bod gan ofalwyr, a allai gynnwys gwŷr a gwragedd/partneriaid i gyn-aelodau o’r Lluoedd Arfog, hawl gyfartal i asesiad.

I ofyn am asesiad, mae’n rhaid ichi gysylltu â’ch awdurdod lleol perthnasol (mae’r manylion cyswllt ar dudalen 22).

Bydd yr asesiad yn cael ei gwblhau mewn partneriaeth gyda chi a’ch teulu, a’r gweithiwr proffesiynol sy’n gweithio gyda chi. Bydd sgwrs yn cael ei chynnal i ganfod beth sydd o bwys i chi a beth y mae arnoch ei angen i gyflawni llesiant. Bydd hyn yn ystyried eich cryfderau, a’r adnoddau a’r opsiynau sydd ar gael ichi – gan gynnwys unrhyw gymorth y gall yr awdurdod lleol ei roi.

## BETH OS YDW I’N CAEL TRINIAETH AR GYFER CYFLWR IECHYD MEDDWL?

Os ydych eisoes yn cael triniaeth ar gyfer cyflwr iechyd meddwl, bydd eich gofal a’ch triniaeth yn parhau wedi ichi gael eich rhyddhau trwy lwybr gofal rhwng y Weinyddiaeth

Amddiffyn a'r GIG. Bydd triniaeth barhaus yn cael ei rheoli gan GIG Cymru i Gyn-filwyr trwy Therapydd Cyn-filwyr profiadol sydd wedi'i leoli ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Bydd apwyntiad yn cael ei drefnu mor agos â phosibl at gartref y cyn-filwr mewn lleoliad addas.

Os na fydd hyn yn digwydd, bydd angen ichi roi gwybod eich bod yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog i sicrhau bod eich triniaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Therapydd Cyn-filwyr priodol.

http://www.veteranswales.co.uk/

Fel arall gallwch gael cyngor trwy ffonio'r llinellau cymorth 24/7 canlynol:

- CALL - 0800 132 737
- Rethink - 0800 138 1619

**BYDD ANGEN CYMORTH ARNAF I GYNNAL Y DENANTIAETH SYDD GENNYF YN AWR**

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i bwriadu i helpu pobl a chanddynt anghenion o ran cymorth sy'n gysylltiedig â thai i gael neu gadw cartref trwy gynnig amrywiaeth o gymorth addas i'r person hwnnw fel y bo angen.

Os ydych chi'n meddwl y gall fod arnoch angen cymorth i gynnal tenantiaeth gallwch hefyd siarad gyda'r tîm Cefnogi Pobl yn eich awdurdod lleol i weld a oes cymorth ar gael ganddynt hwy. Mae rhestr o bob tîm Cefnogi Pobl wedi'i chynnwys ar dudalen 22.

**A ALLAF GAEL CYMORTH AR GYFER CAETHIWED I SYLWEDDAU?**

Yng Nghymru DAN 24/7 yw'r llinell cyffuriau ac alcohol Cymru gyfan ddwyieithog – 0800 633 2234.

Mae ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ac mae galwadau o linellau tir yn y DU yn rhad ac am ddim (efallai y bydd rhai rhwydweithiau ffonau symudol yn codi am alwadau). Mae gwybodaeth ar gael trwy'r wefan hefyd - dan247.org.uk

Gan ddibynnu ar ardal eich awdurdod lleol, efallai y bydd cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gael hefyd trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Dylech sicrhau bod ymgynghorydd digartrefedd eich awdurdod lleol yn ymwybodol o'ch caethiwed i sylweddau wrth ichi gydweithio i ddatrys eich digartrefedd.

**DYDW I DDIM YN FODLON AR Y LEFEL O WASANAETH YR WYF WEDI'I DERBYN**

Os ydych chi'n teimlo nad yw eich awdurdod lleol wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, yna gallwch ei herio.

Bydd Shelter Cymru yn gallu rhoi cyngor annibynnol ichi ynghylch manylion eich achos a'ch cynghori ynghylch herio neu beidio. Gallwch gysylltu trwy ffonio'r llinell gymorth genedlaethol - 0345 075 5005. Bydd swyddogion rhanbarthol yn gallu eich cynorthwyo gyda'ch achos os oes sail i herio.

# CANLLAW I YMARFERWYR

Mae'r adran hon wedi'i bwriadu i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y sefydliadau hynny, yn rhai statudol a gwirfoddol, sy'n cefnogi cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u dibynyddion sy'n ddigartref.

**Datgelu Pwy Ydych:**

Gallai rhai pobl sydd wedi hen arfer â chysgu ar y stryd fod yn gyndyn o ymgysylltu â gwasanaethau o ganlyniad i brofiadau gwael yn y gorffennol ac, mewn rhai achosion, materion iechyd meddwl. Gall rhai cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog fod yn gyndyn o ddatgelu pwy ydynt am amrywiaeth o resymau.

O ystyried y cymorth ychwanegol sydd ar gael o ganlyniad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, mae'n bwysig bod cyn-filwyr yn cael eu hannog i ddatgelu pwy ydynt ac yn cael eu hysbysu ynghylch manteision ymgysylltu â'r gwasanaethau digartrefedd newydd o ganlyniad i'r newid mewn deddfwriaeth digartrefedd sy'n golygu y gallai unrhyw un sy'n cysgu ar y stryd fod yn gymwys i gael cymorth i ddod o hyd i lety gan yr awdurdod lleol.

**Cyflwyno Cais am Wasanaethau Digartrefedd:**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn caniatáu i gais am gymorth gyda digartrefedd gael ei gyflwyno i awdurdod lleol gan yr unigolyn dan sylw yn ogystal ag unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn.

Wrth gyflwyno cais ar ran cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, mae'n bwysig eich bod yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion personol – gan gynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol a rhifau ffôn os ydynt yn hysbys, a chadarnhad bod yr unigolyn hwn yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog (gan gynnwys eich rhif yn y Lluoedd Arfog os yw'n hysbys);
- Hanes byr o ran tai – gan gynnwys y math o lety (h.y. fflat neu dŷ), enw'r landlord (a'i berthynas â'r ymgeisydd), rheswm dros adael a hyd yr arhosiad yn yr eiddo;
- Manylion meddygol – gan gynnwys unrhyw faterion iechyd presennol, manylion meddyginiaeth bresennol, os o gwbl, ac enw'r meddyg teulu os yw'n hysbys neu pa un a yw'r driniaeth yn cael ei rhoi trwy GIG Cymru i Gyn-filwyr;
- Anghenion o ran cymorth – manylion y cymorth y mae'r unigolyn yn ei gael ar hyn o bryd gan gynnwys manylion cyswllt darparwyr a rheswm dros y cymorth a roddir.

Efallai y bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol hefyd i ddarparu llety dros dro gan ddibynnu a oes 'rheswm i gredu' bod yr ymgeisydd yn perthyn i un o'r deg categori angen blaenoriaethol. Nid yw'r categori angen blaenoriaethol sy'n cynnwys pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn rhoi angen blaenoriaethol yn awtomatig i bob cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog – dim ond y rhai sy'n ddigartref yn union wedi iddynt adael y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, gellid cadarnhau angen blaenoriaethol dan unrhyw un o'r naw categori arall.

**Cyngor pellach ynghylch digartrefedd:**

Bydd Shelter Cymru yn gallu rhoi cyngor annibynnol ichi ynghylch manylion achos. Gallwch gysylltu trwy ffonio'r llinell gymorth genedlaethol – 0345 075 5005.

# ENGHREIFFTIAU O GAMAU RHESYMOL

- Gwasanaethau i ddatrys anghydfodau rhwng gwahanol bartïon, megis cyfryngu a chymodi;
- Taliadau ariannol o gronfa atal digartrefedd;
- Cyngor arbenigol ynghylch hawliau lles/budd-daliadau a chyngor ynghylch dyledion/arian;
- Cyngor annibynnol ynghylch tai;
- Cydweithio rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atal digartrefedd;
- Dulliau ar y cyd gyda gwasanaethau eraill megis Gofal Cymdeithasol ac Iechyd;
- Ymgysylltu â gwasanaethau cam-drin domestig;
- Ymyrryd mewn argyfwng;
- Atgyfeirio at Dîm Cymorth Dwys i Deuluoedd;
- Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;
- Cyngor ynghylch dewisiadau o ran cyflogaeth a hyfforddiant;
- Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai;
- Camau gweithredu i ddatrys ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Dewisiadau i hwyluso mynediad at y Sector Rhentu Preifat;
- Camau gweithredu i ymyrryd ag ôl-ddyledion morgais;
- Camau gweithredu i gefnogi ymgeiswyr anabl;
- Mynediad at dai â chymorth;
- Trefnu llety gyda pherthnasau a ffrindiau;
- Dewisiadau i gartrefu pobl hyglwyf;
- Tai a rennir a/neu dai amlfeddiannaeth
- Llety â chymorth.

## RHESTRAU CYSWLLT AR GYFER CYNGOR

| | |
|---|---|
| **Alabaré:**<br>http://www.alabare.co.uk<br>Tel: 01722 322 882<br>Email: enquiries@alabare.co.uk | **Blind Veterans:**<br>www.blindveterans.org.uk<br>Tel: 0800 389 7979 |
| **CAIS:**<br>www.cais.co.uk/<br>Tel: 0345 06 121 12 | **Citizens Advice Cymru:**<br>Advice line – 0344 477 2020 |
| **Combat Stress:**<br>Tel: 0800 138 1619 | **DAN 24/7:**<br>Drug/alcohol helpline – 0800 808 2234. |
| **First Choice Housing Association:**<br>http://www.fcha.org.uk/<br>Tel: 029 2070 3758 | **Haig Housing:**<br>http://www.haighousing.org.uk/<br>Tel: 020 8685 5777 |
| **Help for Heroes:**<br>www.helpforheroes.org.uk<br>Tel: 0808 2020 144<br>Email:<br>hidden.wounds@helpforheroes.org.uk | **Homes for Heroes:**<br>National number – 0207 237 6363 |
| **Joint Services Housing Advice Office:**<br>Email - RC-AWS-JSHAO-0mailbox@mod.uk<br>Advice line 01252 787574 | **Mind Infoline:**<br>Tel: 0300 123 3393 |
| **Poppy Factory:**<br>https://www.poppyfactory.org/<br>Email: admin@poppyfactory.org | **The Royal British Legion:**<br>18/19 High Street, Cardiff, CF10 1PT<br>Tel: 0808 802 8080 |
| **Samaritans:**<br>Tel: Free phone: 116 123 | **Shelter Cymru:**<br>Shelter Cymru Live: 0345 075 5005 |
| **SPACES:**<br>Email - spaces@riverside.org.uk<br>Tel: 01748 833797/872940/830191 | **SSAFA:**<br>National number – 0800 731 4880 |
| **Veterans NHS Wales:**<br>http://www.veteranswales.co.uk/<br>CALL - 0800 132 737<br>Rethink - 0800 138 1619 | **Veterans UK:**<br>Email: veterans-uk@mod.uk<br>Freephone (UK only): 0808 1914 2 18<br>Telephone (overseas): +44 1253 866 043 |

## RHESTRAU CYSWLLT AR GYFER CYNGOR AWDURDOD LLEOL

| Awdurdod Lleol | Digartrefedd | Cefnogi Pobl |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 01495 354 600 | Supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk 01495 354 685 |
| Bridgend | 01656 643 540 | Supporting.people@bridgend.gov.uk 01656 643 540 or 01656 643 522 |
| Caerphilly | 01495 873 552 | supportingpeople@caerphilly.gov.uk 01443 864 548 |
| Cardiff | 02920 537 342 | supportingpeople@cardiff.gov.uk 029 20537 290 |
| Carmarthenshire | 01554 899 259 | supportingpeople@carmarthenshire.gov.uk 01267 234 567 |
| Ceredigion | 01970 633 396 | dss.supportingpeople@ceredigion.gov.uk 01545 574 082 |
| Conwy | 01492 576 264 | debbie.lambe@conwy.gov.uk 01492 574 229 |
| Denbighshire | 01824 712 372 | Katie.newe@denbighshire.gov.uk |
| Flintshire | 01352 701 400 | admin.supporting.people@flintshire.gov.uk 01352 703 522 |
| Gwynedd | 01286 682 608 | UnedCefnogiPobl@gwynedd.gov.uk 01286 682 603 |
| Merthyr Tydfil | 01685 725 475 | Lowri.rees@merthyr.gov.uk |
| Monmouthshire | 01495 742 437 | ChrisRobinson@monmouthshire.gov.uk 01633 644 934 |
| Neath Port Talbot | 01639 685 219 | supportingpeople@npt.gov.uk 01639 685 209 |
| Newport | 01633 210 826 | supporting.people@newport.gov.uk 01633 414 850 |
| Pembrokeshire | 01437 764 551 | supporting.people@pembrokeshire.gov.uk, 01437 776675. |
| Powys | 01597 827 464 | Adrian.2.jones@powys.gov.uk |
| Rhondda Cynon Taf | 01443 425 005 | SupportingPeopleTeam@rhondda-cynon-taff.gov.uk |
| Swansea | 01792 774 320 | Supporting.people@swansea.gov.uk 01752 533 700 |
| Torfaen | 01495 742 437 | supporting.people@torfaen.gov.uk 01495 766 949 |
| Vale of Glamorgan | 01446 709 302 | supportingpeople@valeofglamorgan.gov.uk 01446 709 793 |
| Ynys Môn/Isle of Anglesey | 01248 752 200 | supportingpeople@anglesey.gov.uk 01248 750 274 |
| Wrexham | 01978 298 993 | supportingpeople@wrexham.gov.uk 01978 292 000 |

**DIFFINIADAU O IAITH A DDEFNYDDIR**

- "**Cam-drin domestig**" – mae hyn yn cyfeirio at y diffiniad o gam-drin domestig a cham-drin a nodir yn a.58 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
- "**Digartrefedd**" - mae hyn yn cyfeirio at y diffiniadau a nodir yn a.55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- "**Cymdeithas Dai**" a "**Cymdeithas**" – mae'r rhain yn golygu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu Ddarparwr Cofrestredig Tai Cymdeithasol sy'n darparu tai cymdeithasol yng Nghymru;
- "**Awdurdod Lleol**" – mae hyn yn golygu Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru;
- **"Angen blaenoriaethol**" – mae hyn yn cyfeirio at y categorïau a restrir yn adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n berthnasol i ddyletswyddau dan adran 68 a 75 o'r Ddeddf Tai (Cymru). Mae angen blaenoriaethol yn codi lle mae rhywun a arferai fod yn Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron wedi bod yn ddigartref ers gadael y Lluoedd Arfog hynny. Mae pobl sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn yn golygu'r Llynges Frenhinol, y lluoedd rheolaidd yn ôl y diffiniad yn A.225 o Ddeddf y Fyddin 1955, y Llu Awyr rheolaidd yn ôl y diffiniad yn A.223 o Ddeddf y Lluoedd Awyr 1955 a Gwasanaeth Nyrsio Morol Brenhinol y Frenhines Alexandra;
- "**Camau rhesymol**" – mae hyn yn cyfeirio at y cymorth a gynigir gan Awdurdod Lleol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
- "**Cefnogi Pobl**" – mae hyn yn cyfeirio at gymorth a gynigir gan Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan Awdurdodau Lleol;
- "**O dan fygythiad o ddigartrefedd**" – mae hyn yn cyfeirio at y diffiniadau a nodir yn a.55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- "**Hyglwyf**" neu "**natur hyglwyf**" – mae hyn yn cyfeirio at y categori angen blaenoriaethol penodol yn ôl adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

## Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A CHYFRIFOLDEBAU

Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog

1. Addewid gan Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw pobl sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn wynebu anfantais o ganlyniad i'w Gwasanaeth yw Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Mae'n cydnabod bod rhwymedigaeth foesol ar y genedl gyfan tuag at aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Mae Deddf y Lluoedd Arfog 2011 yn nodi gofyniad statudol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog sy'n nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn y Cyfamod ac unrhyw ymrwymiadau newydd a adnabuwyd.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthnasoedd cryf gyda'i bartneriaid allweddol, gan feithrin a hyrwyddo'r Cyfamod yng Nghymru. Mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol sy'n dangos eu hymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan gynnig cymorth a gwasanaethau wedi'u targedu.

Deddf Tai (Cymru) 2014

3. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu camau i atal digartrefedd fel y nodir yn ei Chynllun Digartrefedd Deng Mlynedd. Mae'n cyflwyno deddfwriaeth digartrefedd newydd, a ddaeth i rym ar 27 Ebrill 2015. Mae nodweddion allweddol y ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys:

- Cyflwyno dyletswydd gorfforaethol newydd i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i helpu pobl i atal digartrefedd;
- Ymestyn y diffiniad o 'o dan fygythiad o ddigartrefedd' o 28 i 56 diwrnod;
- Pŵer yn hytrach na dyletswydd i gymhwyso'r prawf bwriadoldeb;
- Pwerau newydd sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd digartrefedd trwy gynnig tai addas yn y sector rhentu preifat;
- Dyletswyddau cryfach ar Gymdeithasau Tai i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.

4. Lle mae awdurdod lleol yn derbyn bod dyletswydd arno, bydd yn rhaid iddo gymryd 'camau rhesymol' i'w cynorthwyo i ddychwelyd i lety addas neu ddod o hyd i lety addas cyn iddynt ddod yn ddigartref. Mae'r *Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016* yn rhoi manylion o ran sut y dylid gwneud hyn.

5. Y canlyniad fydd mwy o help i fwy o bobl sydd naill ai mewn perygl o ddod yn ddigartref, neu ddigartrefedd, gan hefyd gadw'r rhwyd ddiogelwch ar gyfer y bobl hyglwyf hynny ac arnynt angen y cymorth ychwanegol.

6. Mae Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cydnabod y bobl hynny sydd wedi gwasanaethu'n flaenorol yn Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron ac sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd hynny fel rhai sydd mewn angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, gall cyn-filwyr brofi anawsterau ar ôl cael eu rhyddhau hefyd, o ran addasu i fywyd allan o'r lluoedd arfog. Gall hyn gynnwys

trawma sy'n dechrau'n hwyr, anawsterau iechyd meddwl, problemau sy'n gysylltiedig ag anaf corfforol a chamddefnyddio sylweddau. Gall y materion hyn arwain wedyn at anawsterau o ran addasu i'w bywyd newydd ac mewn rhai achosion gall arwain at ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Efallai na fydd angen blaenoriaethol yn berthnasol i'r unigolion hyn; mae'r ddeddfwriaeth yn sicrhau y byddant yn cael cymorth i'w helpu i ddod o hyd i lety neu gadw llety.

7. Er nad yw cysylltiad lleol yn cael ei ystyried yn ystod camau cynnar cymorth gan Awdurdod Lleol, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y ddyletswydd dan adran 75 i sicrhau llety, gallai awdurdod lleol ystyried cysylltiad lleol rhywun â'i ardal. Mae adran 81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi'r sail gyfreithiol i gadarnhau cysylltiad lleol ag ardal. Byddai ffactorau a ddylai roi cysylltiad lleol i rywun yn cynnwys a yw rhywun wedi bod yn preswylio fel arfer mewn ardal benodol yn y gorffennol, wedi bod yn cael ei gyflogi yno neu a oes ganddo gysylltiadau teuluol yno.

8. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Mae Adran 52 (Strategaethau digartrefedd) yn sicrhau bod yn rhaid i bob awdurdod lleol ystyried Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog wrth ddatblygu ei strategaeth digartrefedd, tra bo adran 60 yn sicrhau bod y gwasanaeth cyngor a chynhorthwy y mae'n rhaid i bob Awdurdod fod wedi'i sefydlu yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion y rhai a fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar un adeg, ymhlith grwpiau eraill.

9. Er mwyn ateb y gofynion dan adran 52 a 60, erfynnir ar awdurdodau lleol i ddatblygu ffeithlenni y gellir eu rhoi i aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n cyflwyno ymholiad i'r awdurdod cyn ac ar ôl eu rhyddhau. Dylai'r ffeithlenni hyn hefyd gynnwys y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy'r cyfamod a rhaglenni ariannu eraill sy'n gysylltiedig â thai.

<u>Deddf Tai 1996</u>

10. Er nad yw'r ddeddfwriaeth digartrefedd sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Tai 1996 yn berthnasol i Gymru mwyach, mae Rhan 6 (fel y'i diwygiwyd yn 2002) yn dal i fod mewn grym yng Nghymru ac yn darparu'r ddeddfwriaeth ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol.

11. Mae Adran 167(2) o Ddeddf Tai 1996 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol fframio'u cynlluniau dyrannu er mwyn rhoi ffafriaeth ychwanegol i ddisgrifiadau penodol o bobl sy'n perthyn i'r categorïau ffafriaeth resymol ac sydd ag anghenion tai brys.

12. Mae'n rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol ystyried, yng ngoleuni amgylchiadau lleol, yr angen i roi ei heffaith i'r ddarpariaeth hon. Mae pobl ac arnynt angen llety o ganlyniad i adael y Lluoedd Arfog yn gategori o bobl y dylai Awdurdod Lleol ystyried rhoi blaenoriaeth ychwanegol iddynt o fewn eu cynllun dyrannu.

<u>Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl</u>

13. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o helpu i atal digartrefedd ac o helpu pobl i ymdrin â chanlyniadau hynny. Mae'r rhaglen yn helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw ac yn helpu eraill i osgoi dod yn ddigartref ac i fyw mor annibynnol â phosibl.

14. O ganlyniad, gall wneud cyfraniad sylweddol at y cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac sydd ag anghenion dynodedig o ran cymorth.

15. Caiff y cyllid ei ddyrannu trwy awdurdodau lleol a chaiff ei wario yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

16. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2016. Er nad yw Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn cael mynediad blaenoriaethol dan y ddeddfwriaeth, mae'r Ddeddf gyfan yn canolbwyntio ar hybu cyfle pobl ar gyfer llesiant a galluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl yn ôl yr hyn sy'n briodol.

17. O dan y Ddeddf mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw oedolyn lle ymddengys i'r awdurdod hwnnw y gall fod ar yr oedolyn angen gofal a chymorth. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal trwy sgwrs sy'n seiliedig ar barch lle gall yr unigolyn bennu ei ddeilliannau personol ei hun a chwarae rhan lawn mewn trafodaethau ynglŷn â sut y gellir ei gynorthwyo i'w cyflawni orau.

18. Dylai fod staff tai'n gwybod am y newidiadau dan y Ddeddf, ac i'r meini prawf cymhwystra cenedlaethol newydd sy'n berthnasol yng Nghymru, a sicrhau bod unrhyw gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n ceisio cymorth gyda thai'n cael eu gwneud yn ymwybodol sut y gallant gael eu hasesu os oes ganddynt unrhyw anghenion o ran gofal a chymorth.

19. Mae manylion pellach ynglŷn â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yma: http://www.ccwales.org.uk/the-act/

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

20. Daeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i rym yn 2012 ac mae'n cynnwys darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol sy'n ei gwneud yn bosibl cael mynediad gwell at wasanaethau ar gyfer asesiad cychwynnol, cyngor, gwybodaeth a thriniaeth ar lefel gofal sylfaenol. Mae'r Mesur hefyd yn sicrhau bod gan yr holl bobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd gynllun gofal a thriniaeth holistaidd sy'n ystyried wyth maes yn eu bywydau, ac un o'r rhain yw anghenion rhywun o ran llety.

21. Ym mis Hydref 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth newydd ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar ddull traws-sector cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â'r ystod o anghenion sy'n effeithio ar iechyd meddwl, gan gynnwys tai.

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/report-2013/?lang=cy